| Accend | Cymhorthol | Cynorthwyol | Cyn-gofrestru |
|---|---|---|---|
| **Parth A: Dull o gydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | | | |
| **1.0 Galluoedd: Gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 1.1 Ymofyn safbwyntiau unigolion ac ymgysylltu â hwy ynghylch eu cyflyrau, eu dewisiadau o ran gofal a'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy a'u gofalwyr o ran amcanion a deilliannau eu triniaeth. | | | |
| 1.2 Dangos dirnadaeth o'r unigolyn a chyfleu empathi ynghylch effaith ei ddiagnosis canser. | | | |
| 1.3 Cydnabod a pharchu profiad ac arbenigedd unigolion, eu gofalwyr a rhwydweithiau cymorth. | | | |
| 1.5 Cydnabod yr effaith ehangach y gall symptomau canser (parhaus yn aml) ei chael ar unigolion, eu teuluoedd a'u hanwyliaid. | | | |
| 1.6 Archwilio a gwyntyllu ei rôl o ran cynorthwyo a galluogi unigolion i fyw bywydau ystyrlon, p'un a yw gwellhad neu ddatrysiad yn bosibl ai peidio. | | | |
| 1.7 Hyrwyddo a chyfrannu at ymdriniaeth gyson ac integredig drwy gydol y cyfnod gofal, gan ganolbwyntio ar anghenion dynodedig yr unigolyn. | | | |
| 1.10 Cadw at ofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol yn ogystal â chodau proffesiynol a phrotocolau cyflogwyr. | | | |
| 1.11 Mabwysiadu dull beirniadol o drin ansicrwydd a risg foesegol, gan weithio gydag eraill i ddatrys unrhyw anghydfod. | | | |
| 1.12 Arddangos ymarfer diogel, effeithiol, ymreolaethol ac adfyfyriol. | | | |
| 1.13 Cyfnerthu ei ymarfer a'i ddatblygiad proffesiynol a chynnal cyfoesedd ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael trwy ddefnyddio canllawiau clinigol a chanfyddiadau ymchwil yn briodol. | | | |
| 1.14 Arddangos atebolrwydd am ei benderfyniadau a'i weithredoedd a deilliannau ei ymyriadau. | | | |
| 1.15 Gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm, gan ddefnyddio'i wybodaeth a'i sgiliau proffesiynol ei hun yn ogystal â rhinweddau ei gydweithwyr. | | | |
| 1.17 Ategu ymchwil glinigol i ddatblygu ymarfer canser. | | | |
| | | | |
| **Parth A: Dull o gydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | | | |
| **2.0 Galluoedd: Cynnal ymagwedd foesegol, addasrwydd i ymarfer, y gyfraith, moeseg a chyfrifoldebau diogelu.** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 2.1 Arddangos arferion proffesiynol yn ei ymarfer clinigol o ddydd i ddydd. | | | |
| 2.2 Adfyfyrio'n feirniadol ynghylch sut y gallai gwerthoedd, agweddau a chredoau personol ddylanwadu ar ei ymddygiad a'i ryngweithiadau proffesiynol. | | | |
| 2.3 Defnyddio hunanymwybyddiaeth feirniadol o'i werthoedd, ei gredoau, ei ragfarnau, ei ragdybiaethau a'i ystrydebau personol i liniaru eu heffaith ar y modd y mae'n rhyngweithio ag eraill. | | | |
| 2.4 Cydnabod a gweithredu'n briodol pan fo'i ymddygiad ei hun neu ymddygiad pobl eraill yn tanseilio cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. | | | |
| 2.5 Ystyried a mynd i'r afael yn briodol â chyfyngderau moesegol/moesol a ddaw i'r amlwg wrth ymroi i'w waith a allai effeithio ar ofal pobl yr effeithir arnynt gan ganser. Hyrwyddo cydraddoldeb, tegwch a pharch at bobl a chydweithwyr yn ei ymarfer dyddiol. | | | |
| 2.6 Cynnal cyfoesedd â hyfforddiant gorfodol neu ofynion ailddilysu, gan gynnwys y rhai sy'n mynnu tystiolaeth ar sail gofal pobl yr effeithir arnynt gan ganser. | | | |
| 2.7 Cydnabod a chynnal cydbwysedd rhwng bywyd proffesiynol a phersonol sy'n bodloni ei ymrwymiadau gwaith, yn cynnal ac yn hybu ei iechyd a'i les personol ac yn meithrin gwydnwch. | | | |
| 2.8 Dangos craffter ynghylch ei faterion iechyd personol, gan fynd i'r afael ag unrhyw fater iechyd neu arferiad sy'n effeithio ar ei gyflawniad. | | | |
| 2.9 Ymateb yn brydlon ac yn ddiduedd pan fo pryderon yn ei gylch ef neu gydweithwyr; ymofyn cyngor gan bobl briodol ac, os oes angen, ymgymryd â gweithdrefn atgyfeirio. | | | |
| 2.10 Hyrwyddo mecanweithiau megis gweithdrefnau cwyno, digwyddiadau arwyddocaol a phrosesau rheoli cyflawniad er budd gwella gofal pobl. | | | |
| 2.11 Hyrwyddo mecanweithiau megis canmoliaethau a llythyrau o ddiolch i gydnabod a hyrwyddo arferion da. | | | |
| | | | |
| **Parth A: Dull o gydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | | | |
| **3.0 Galluoedd:** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 3.3 Dewis iaith a chyfrwng priodol (gan gynnwys ymgynghori o bell megis sgwrs dros y ffôn, *Skype* , iaith arwyddion, deunydd ysgrifenedig ac ati) i gyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol â phobl yr effeithir arnynt gan ganser. | | | |
| 3.4 Ymateb yn sensitif i ddewisiadau ac anghenion unigolion, gan gynnal a diogelu eu buddiannau. | | | |
| 3.5 Pennu ac integreiddio anghenion, dewisiadau, blaenoriaethau ac amgylchiadau unigryw unigolion er mwyn llywio'r gofal a'r driniaeth a gynigir. | | | |
| 3.6 Parchu arbenigedd unigolion mewn perthynas â'u bywydau a'u cyflyrau eu hunain, gan eu grymuso i gadw rheolaeth ac i wneud dewisiadau sy'n cyd-fynd â'u hamcanion. | | | |
| 3.7 Defnyddio sgiliau gwrando gweithredol a sgiliau hwyluso i alluogi unigolion i leisio'u pryderon a'u blaenoriaethau mewn perthynas â'u symptomau canser a goblygiadau'r driniaeth. | | | |
| | | | |
| **Parth A: Dull o gydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | | | |
| **4.0 Galluoedd: Sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 4.1 Gwrando'n weithredol ar eraill a chyfathrebu'n effeithiol â hwy, gan gydnabod ei bod yn broses ddwyffordd, weithredol. | | | |
| 4.2 Arfarnu strategaethau cyfathrebu'n feirniadol a gwneud y defnydd gorau o ddulliau cyfathrebu, gan ddefnyddio sgiliau fel gwrando gweithredol e.e. egluro'n aml, aralleirio ac ymateb i arwyddion geiriol megis cyflymder, seibiannau a thonyddiaeth llais. | | | |
| 4.3 Adfyfyrio ar strategaethau cyfathrebu ac addasu'r rhai a ddefnyddir yn fedrus i sicrhau eu bod yn meithrin amgylchedd sy'n grymuso pobl. | | | |
| 4.4 Cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n adeiladu ac yn cynnal perthnasoedd, gan geisio, casglu a rhannu gwybodaeth yn briodol, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn rhwyddhau ac integreiddio gofal pobl. | | | |
| 4.5 Cyfathrebu'n effeithiol, yn barchus ac yn broffesiynol gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr pan fo blaenoriaethau a safbwyntiau'n tynnu'n groes i'w gilydd. | | | |
| 4.6 Cyfleu gwybodaeth a thrafod materion mewn modd sy'n osgoi jargon a rhagdybiaethau; ymateb yn briodol i gwestiynau a phryderon i hybu dealltwriaeth, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth lafar, ysgrifenedig a digidol. | | | |
| 4.8 Addasu dulliau cyfathrebu llafar a di-eiriau yn ymreolaethol mewn modd empathig ac ymatebol i anghenion, dewisiadau a galluoedd cyfathrebu ac iaith pobl (gan gynnwys lefelau Saesneg llafar a llythrennedd iechyd). | | | |
| 4.9 Cyfathrebu'n effeithiol ag unigolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, megis unigolion ag amhariadau synhwyraidd neu wybyddol, i sicrhau cysylltiad effeithiol â'r ymarferydd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth hygyrch. | | | |
| 4.10 Asesu ac unioni sefyllfaoedd, amgylchiadau neu leoedd sy'n ei gwneud yn anodd cyfathrebu'n effeithiol (e.e. amgylcheddau swnllyd, aflonyddol yn ystod ymweliadau cartref, ymweliadau cartref gofal neu mewn sefyllfaoedd brys), a rhoi strategaethau ar waith i oresgyn y rhwystrau hyn. | | | |
| 4.12 Addasu'r dull o gyfathrebu mewn amgylcheddau sefyllfaol nad ydynt wyneb yn wyneb e.e. ffôn, fideo, e-bost neu ymgynghori o bell. | | | |
| | | | |
| **Parth A: Dull o gydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | | | |
| **5.0 Galluoedd: Teilwra'r llwybr gofal ar gyfer pobl sy'n byw gyda chanser ac yr effeithir arnynt gan ganser** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 5.1 Ymateb yn sensitif i arwyddocâd cefndir, hunaniaeth, diwylliant, gwerthoedd a phrofiadau unigolion o ran sut mae eu cyflwr canser yn effeithio ar eu bywydau, gan gydnabod arbenigedd unigolion i reoli eu gofal eu hunain. | | | |
| 5.2 Cydweithio ag unigolion i ddatblygu cynlluniau gofal personol sydd yn: | | | |
| • Adlewyrchu eu blaenoriaethau a'u pryderon presennol ac i'r dyfodol. | | | |
| • Annog hunanofal a hunan-gofnodi symptomau arwyddocaol, gan gynnwys mewn argyfwng. | | | |
| • Ystyried effeithiau seicolegol canser a'r strategaethau i'w rheoli. | | | |
| • Ymgorffori cyflyrau meddygol eraill a risg eiddilwch. | | | |
| • Ystyried risgiau, manteision a chanlyniadau'r holl opsiynau sydd ar gael. | | | |
| 5.3 Ystyried baich triniaeth ar unigolion sydd â chanser a chydafiachedd, wrth fynd ati i gynllunio gofal, gan gynnwys apwyntiadau rheolaidd i reoli anghenion gofal iechyd eraill o bosibl. | | | |
| 5.4 Defnyddio protocolau a chanllawiau i greu llwybrau gofal a dogfennaeth unigolyddol e.e. cynlluniau gofal, crynodebau triniaethau, gwyliadwriaeth hwyr-effeithiau. | | | |
| 5.10 Cydnabod pwysigrwydd teuluoedd, gofalwyr a rhwydweithiau cymdeithasol wrth gynllunio a darparu gofal. Hefyd, cydnabod pwysigrwydd meithrin partneriaethau â hwy, gan roi sylw dyledus i gymhlethdod perthnasoedd a threfniadau teuluol a'u hamrywioldeb. | | | |
| 5.12 Pwysoli goblygiadau'r deddfwriaethau perthnasol parthed cydsyniad ystyrlon ar sail gwybodaeth a phenderfyniadau ar y cyd, a'u gweithredu'n ymarferol (e.e. deddfwriaeth galluedd meddyliol, Canllawiau Fraser). | | | |
| | | | |
| **Parth A: Dull o gydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | | | |
| **6.0 Galluoedd: Helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus wrth iddynt fyw gyda chanser neu gael eu heffeithio arnynt gan ganser.** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 6.1 Darparu gwybodaeth a chyngor sy'n briodol i anghenion, blaenoriaethau a phryderon unigolion. | | | |
| 6.4 Cydnabod a pharchu'r penderfyniadau a wneir gan unigolion ynghylch eu hiechyd a'u lles mewn perthynas â chanser, triniaethau canser, goroesedd a gofal hwyr-effeithiau. | | | |
| 6.6 Gwneud penderfyniadau priodol i geisio cymorth a mynegi pryderon i gydweithwyr pan fo dewisiadau unigolion yn eu rhoi mewn perygl. | | | |
| 6.7 Nodi ffactorau a all effeithio ar allu unigolion i ymofyn, trefnu neu gyrchu gwasanaethau neu gymorth, a gweithredu'n briodol i'w helpu i gael y gofal sydd ei angen arnynt (e.e. gwybodaeth, hyder, cyfyngiadau corfforol, unigedd cymdeithasol). | | | |
| 6.8 Darparu gwybodaeth a chymorth i helpu unigolion i gyrchu'r gwasanaethau a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i weithredu eu penderfyniadau. | | | |
| | | | |
| **Parth A: Dull o gydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | | | |
| **7.0 Galluoedd: Darparu gwybodaeth i hybu hunanreolaeth ac i alluogi annibyniaeth pobl sy'n byw gyda chanser ac yr effeithir arnynt gan ganser.** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 7.1 Darparu gwybodaeth ysgrifenedig, ar-lein ac ar lafar i unigolion am eu cyflwr a'u triniaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i hybu hunanofal ac annibyniaeth. | | | |
| 7.3 Darparu gwybodaeth hygyrch i unigolion i ategu eu cynllun ymyrraeth, er enghraifft, taflen wybodaeth / deunydd clyweledol ynghylch arwyddion a symptomau i'w monitro mewn perthynas â chanser, triniaethau canser, ailddychweliad neu hwyr-effeithiau tebygol. | | | |
| 7.6 Gwerthuso dealltwriaeth unigolion o wybodaeth, (gan gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig, gweledol a chlywedol), cyfathrebu'n effeithiol i adfer unrhyw gamddealltwriaeth a chyfleu terminoleg feddygol gymhleth yng ngeiriau gwŷr lleyg. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.7 Cyfeirio unigolion ac aelodau teulu at adnoddau lleol, asiantaethau priodol a ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar-lein neu wybodaeth nad yw'n seiliedig ar destun, ynghylch materion a allai effeithio arnynt yn dilyn triniaeth ganser, gan gynnwys materion gwaith a materion ariannol. | | | |
| 7.8 Cynnig arweiniad a chymorth i gyrchu ffynonellau gwybodaeth priodol ar-lein. | | | |
| | | | |
| **8.0 Galluoedd: Gwaith amlddisgyblaethol, rhyngasiantaethol a gweithio mewn partneriaeth** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 8.1 Ymarfer o fewn ei gwmpas ymarfer proffesiynol a phersonol, gan ymofyn cyngor neu gymorth arbenigol ar ran unigolion neu ar ei ran ei hun pan fo'n briodol. | | | |
| 8.2 Cyfathrebu a chydweithio'n rhyngbroffesiynol yn effeithiol i lunio dogfennaeth glir er budd optimeiddio rheolaeth integredig unigolion â chanser. | | | |
| 8.3 Cydgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr wrth wneud cysylltiadau ag aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol sy'n ymwneud â chynllunio llwybrau gofal cleifion, i hyrwyddo ymyriadau i'r eithaf. | | | |
| 8.5 Meddu ar wybodaeth am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo pobl ar hyd y llwybr gofal. Hefyd, meithrin ymwybyddiaeth o sut i atgyfeirio/cyfeirio at y gwasanaethau a phryd y byddai'n briodol ail-atgyfeirio at ganolfannau triniaeth, gan gynnwys ymgyflwyniadau brys. | | | |
| | | | |
| **Parth A: Dull o gydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | | | |
| **9.0 Galluoedd: Atgyfeiriadau a gwaith integredig i hyrwyddo gofal trosiannol ar gyfer pobl sy'n byw gyda chanser ac yr effeithir arnynt gan ganser** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 9.1 Dirnad a deall y rolau y mae gwasanaethau gofal acíwt, cymunedol a sylfaenol yn eu chwarae wrth gynorthwyo pobl sy'n byw gyda chanser ac yr effeithir arnynt gan ganser. | | | |
| 9.2 Amgyffred y materion sy'n wynebu unigolion wrth iddynt gael triniaeth ganser neu gael eu rhyddhau yn dilyn apwyntiad dilynol ysbyty acíwt. | | | |
| 9.3 Cynorthwyo unigolion i fagu hyder o ran eu gallu i ymdopi â throsbwyntiau yn eu gofal, megis wrth iddynt gael eu rhyddhau o ofal ysbyty i hunanreoli gartref. At hynny, hybu annibyniaeth unigolion a gweithredu fel eiriolwr fel y bo'n briodol. | | | |
| | | | |
| **Parth B: Asesiadau, ymchwiliadau a diagnosis** | | | |
| **10.0 Galluoedd: Nodi hanes** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 10.1 Dangos dealltwriaeth o'r broses Asesu Anghenion Cyfannol a Chynllunio Gofal (HNA), gan gynnwys yr elfennau ffisegol a seicogymdeithasol, a'i goblygiadau o ran ymarfer; deall yr elfennau a allai ddylanwadu ar ddewis personol, megis ffydd, oedran neu ddiwylliant. | | | |
| 10.5 Defnyddio sgiliau gwrando gweithredol a chwestiynau agored i ymgysylltu'n effeithiol a hwyluso'r gwaith o lunio agenda ar y cyd. | | | |
| 10.6 Archwilio a chloriannu syniadau, pryderon a disgwyliadau pobl ynghylch eu symptomau a'u cyflyrau, a ph'un a ydynt yn peri gobaith neu rwystr. | | | |
| 10.11 Asesu effaith y symptomau y mae unigolion yn ymgyflwyno â hwy, gan gynnwys amhariad ar weithrediad a chyfyngiad ar weithgarwch a chyfranogaeth, gan gynnwys gwaith. | | | |
| 10.13 Cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol a gesglir er budd rheolaeth glinigol yn gryno ac yn gywir ac yn unol â chanllawiau lleol, gofynion cyfreithiol a phroffesiynol o ran cyfrinachedd, diogelu data a llywodraethu gwybodaeth. | | | |
| | | | |
| **Parth B: Asesiadau, ymchwiliadau a diagnosis** | | | |
| **11.0 Galluoedd: Asesiad iechyd corfforol a meddyliol clinigol** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 11.1 Caffael cydsyniad yn briodol ar gyfer archwiliadau corfforol, parchu a chynnal preifatrwydd ac urddas y claf (a'i gysur cyn belled ag y bo'n ymarferol) a chydymffurfio â gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. | | | |
| 11.2 Addasu ei ymarfer i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau ac unigolion (gan gynnwys y sawl ag anghenion penodol, megis amhariad gwybyddol neu anableddau dysgu), gan weithio gyda gwarchodwyr/hebryngwyr ble y bo'n briodol. | | | |
| 11.3 Cynnal asesiadau sylwadol a swyddogaethol sy'n berthnasol i gyflyrau unigolion er mwyn nodi a nodweddu unrhyw annormaleddau. | | | |
| 11.5 Defnyddio offer ac adnoddau a gydnabyddir yn genedlaethol, lle bo'n briodol, i asesu cyflyrau a symptomau pobl. | | | |
| 11.10 Cofnodi'r wybodaeth a gesglir yn sgil asesiadau, er budd rheolaeth glinigol, yn gryno ac yn gywir ac yn unol â chanllawiau lleol a gofynion cyfreithiol a phroffesiynol o ran cyfrinachedd, diogelu data a llywodraethu gwybodaeth. | | | |
| | | | |
| **Parth B: Asesiadau, ymchwiliadau a diagnosis** | | | |
| **12.0 Galluoedd: Ymchwiliadau, diagnosis a chynllunio gofal** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 12.5 Adnabod arwyddion a symptomau sy'n ei gwneud yn ofynnol i addasu'r llwybr gofal, gan gyflwyno ymyriadau priodol e.e. graddiad sgil-effeithiau, pryderon seicolegol (fel iselder a phryder), ailddychweliad canser a gofal diwedd oes. | | | |
| 12.7 Asesu'n briodol effaith diagnosis a thriniaeth ganser ar ffyrdd o fyw unigolion, yn ogystal â'u hanghenion o ran cyflogaeth ac ymyriadau i'r dyfodol. | | | |
| 12.8 Deall pwysigrwydd a goblygiadau canfyddiadau a chanlyniadau, gan weithredu'n briodol. Gall hyn gynnwys atgyfeirio/uwchgyfeirio brys mewn ymateb i sefyllfaoedd tyngedfennol, neu ymchwiliad, triniaeth neu atgyfeiriad pellach. | | | |
| 12.12 Dangos gwybodaeth am brofion ac ymchwiliadau cyffredin ym maes gofal canser, gan gynnwys y rhesymeg dros eu defnyddio ac ystodau normal o ran canlyniadau. | | | |
| 12.13 Datblygu cynlluniau gofal cleifion unigolyddol ar gyfer profion ac ymchwiliadau, a'u rhoi ar waith yn unol â chanllawiau a phrotocolau. | | | |
| 12.16 Darparu esboniadau priodol i unigolion ynghylch y gweithdrefnau dan sylw a'r rhesymau dros gynnal profion ac ymchwiliadau. | | | |
| 12.21 Cydnabod pan fo sefyllfa glinigol y tu hwnt i'w allu neu ei gymhwysedd fel ymarferydd, gan uwchgyfeirio'n briodol. | | | |
| | | | |
| **Parth C: Rheoli a thrin cyflyrau a chynllunio ar eu cyfer** | | | |
| **14.0 Galluoedd: Rheoli cymhlethdodau a risgiau meddygol a chlinigol** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 14.1 Deall cymhlethdodau gweithio gyda phobl sydd â chanser +/- cyflyrau clinigol eraill gan gynnwys rhai corfforol, seicolegol, ysbrydol a seicogymdeithasol. | | | |
| 14.8 Annog ymyriadau rhagsefydlu ac adsefydlu'n gyson, ac adferiad lle bo'n briodol. | | | |
| 14.11 Cynorthwyo pobl yn briodol gan gymryd i ystyriaeth ddarparwyr gofal eraill sy'n ymwneud â'u gofal. | | | |
| | | | |
| **Parth C: Rheoli a thrin cyflyrau a chynllunio ar eu cyfer** | | | |
| **15.0 Galluoedd: Rhagnodi annibynnol a ffarmacotherapi** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 15.1 Rhagnodi neu weinyddu meddyginiaethau therapiwtig yn ddiogel, sy'n berthnasol ac yn briodol i'w gwmpas ymarfer. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth gymhwysol o ffarmacoleg sy'n ystyried newidiadau ac alergeddau ffisiolegol neu bathoffisiolegol perthnasol. | | | |
| 15.5 Ymarfer yn unol ag egwyddorion stiwardiaeth gwrthfiotig ac ymwrthedd gwrthficrobaidd, gan ddefnyddio'r adnoddau cenedlaethol sydd ar gael. | | | |
| 15.9 Cynghori pobl ynghylch rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys cydymffurfiaeth, y buddion a'r cyfyngiadau disgwyliedig. Hefyd, hysbysu pobl yn ddiduedd am y manteision a'r anfanteision yng nghyd-destun opsiynau eraill o ran rheoli. | | | |
| 15.10 Deall yr amrediad o opsiynau sydd ar gael heblaw rhagnodi cyffuriau (e.e. peidio â rhagnodi, hybu hunanofal, cynghori ynghylch pryniant meddyginiaethau dros y cownter). | | | |
| 15.11 Hwyluso, rhagnodi neu gyfeirio at therapïau anfeddygol megis seico-oncoleg, newidiadau i ffyrdd o fyw, gwybodaeth a chymorth ar sail llesiant a rhagnodi cymdeithasol. | | | |
| 15.13 Rhoi cynhaliaeth i bobl sy'n cael triniaeth ffarmacolegol ar gyfer canser, gan gynnwys gwybodaeth am sgil-effeithiau a'r ffyrdd o'u rheoli yn ogystal â phryd y dylid ceisio cyngor ychwanegol. | | | |
| 15.14 Cadw cofnodion cywir, eglur a chyfoes ar sail y feddyginiaeth a gaiff ei rhagnodi neu ei gweinyddu, gan roi cyngor mewn perthynas â'r feddyginiaeth honno. | | | |
| | | | |
| **Parth C: Rheoli a thrin cyflyrau a chynllunio ar eu cyfer** | | | |
| **16.0 Galluoedd: Ymyriadau rhagsefydlu ac adsefydlu** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 16.1 Deall sut i sgrinio ac asesu pobl â chanser ar gyfer ymyriadau rhagsefydlu. | | | |
| 16.2 Deall pwysigrwydd cynnal ymyriadau rhagsefydlu cyn gynted ag y bo modd wedi'r diagnosis, yn ogystal â deall sut i weithredu elfennau gofal rhagsefydlu'n effeithiol. | | | |
| 16.3 Deall ymyriadau rhagsefydlu ac yn gallu cynorthwyo pobl sydd â chanser. | | | |
| 16.4 Deall rôl ymyriadau adsefydlu cyffredin ar gyfer pobl sydd â chanser. | | | |
| 16.7 Darparu cyngor ynghylch adfer gweithrediad, gan gynnwys dychweliad graddol i weithgarwch arferol, adnoddau hunanreoli ac addasu gweithgarwch am gyfnodau penodedig. | | | |
| 16.8 Deall mai cymorth gwybyddol, seicolegol ac emosiynol yw'r allwedd i adsefydlu'n llwyddiannus. | | | |
| 16.9 Deall bod angen cymorth adsefydlu ychwanegol ar rai unigolion, megis y sawl sy'n byw ag anableddau, problemau iechyd meddwl, cydafiachedd neu eiddilwch, gan gydnabod y gall eu proses hwy o ymgyrraedd at adferiad neu annibyniaeth gynyddol fod yn un arafach. | | | |
| 16.10 Gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i archwilio addasrwydd ymyriadau rhagsefydlu (cyffredinol, targededig ac arbenigol) ac adsefydlu, gan gynnwys rhagnodi cymdeithasol ar gyfer y rhai y mae angen cymorth cyffredinol arnynt e.e. atgyfeirio unigolion at ystod o wasanaethau anghlinigol lleol megis rhaglenni gweithgarwch corfforol yn y gymuned, lle bo'n briodol. | | | |
| 16.12 Atgyfeirio unigolion at weithwyr iechyd a gofal proffesiynol tra arbenigol e.e. gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd lle y bo hynny'n briodol i anghenion a dymuniadau unigolion. | | | |
| | | | |
| **Parth C: Rheoli a thrin cyflyrau a chynllunio ar eu cyfer** | | | |
| **17.0 Galluoedd: Hyrwyddo hunanreolaeth a newid ymddygiad** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 17.4 Hyrwyddo pwysigrwydd gweithgarwch corfforol er budd iechyd cyffredinol a chynghori pobl â symptomau sy'n gysylltiedig â chanser ynghylch yr hyn y gallent ac y dylent ei wneud. | | | |
| 17.5 Hyrwyddo pwysigrwydd diet iach ac anghenion maethol i leihau effaith symptomau sy'n gysylltiedig â chanser. | | | |
| 17.7 Rhoi anogaeth i unigolion sy'n ceisio newid neu fabwysiadu ymddygiadau newydd ar sail eu hiechyd, gan eu darbwyllo pan fônt yn ei chael yn anodd neu'n tangyflawni. | | | |
| At hynny, cynorthwyo datblygiad nodau tymor byr a thymor hir cyraeddadwy. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.8 Cyfeirio unigolion at wasanaethau lleol sy'n annog byw'n iach, tra'n cydnabod a pharchu eu penderfyniadau unigol, gan ddefnyddio gwybodaeth am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo unigolion a'u tywys ar hyd y llwybr gofal. | | | |
| 17.10 Darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i annog unigolion i gyfathrebu'n weithredol â gweithwyr iechyd proffesiynol lle bo angen, drwy eu cynorthwyo a'u cymell i ofyn cwestiynau ynglŷn â'r hyn sy'n destun blaenoriaeth neu bryder iddynt. | | | |
| 17.11 Cydnabod ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n dylanwadu ar ymddygiad, boed yn gweithredu fel rhwystrau neu hwyluswyr, gan ddarparu ymyriadau/cyfeiriadau i unigolion i'w hysbrydoli a'u hysgogi i newid eu hymddygiad. | | | |
| | | | |
| **Parth C: Rheoli a thrin cyflyrau a chynllunio ar eu cyfer** | | | |
| **18.0 Galluoedd: Rheoli symptomau** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 18.1 Adnabod symptomau cyffredin ac argyfyngau oncolegol. | | | |
| | | | |
| **Parth C: Rheoli a thrin cyflyrau a chynllunio ar eu cyfer** | | | |
| **19.0 Galluoedd: Hwyr-effeithiau** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 19.1 Dangos gwybodaeth am symptomau hwyr-effeithiau ac ymyriadau gofal ar eu cyfer sy'n briodol i'w grŵp cleientiaid/arbenigedd ei hun (e.e. endocrin, iechyd esgyrn, gwenwyndra cardiaidd, materion seicorywiol, ffrwythlondeb, iechyd deintyddol, menopos cynnar). | | | |
| 19.3 Defnyddio protocolau a chanllawiau i greu llwybrau gofal unigol cyfannol a llunio dogfennaeth e.e. cynlluniau gofal, crynodebau triniaeth, gwyliadwriaeth hwyr-effeithiau. | | | |
| | | | |
| **Parth C: Rheoli a thrin cyflyrau a chynllunio ar eu cyfer** | | | |
| **20.0 Galluoedd: Gofal lliniarol a diwedd oes** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 20.1 Nodi hanes strwythuredig cleifion sy'n ymgyflwyno ag anghenion gofal lliniarol neu sy'n wynebu dyddiau olaf eu hoes. | | | |
| 20.4 Deall ac ymarfer o fewn y fframwaith cyfreithiol allweddol sy'n ymwneud â gofal diwedd oes, megis: | | | |
| • Ewyllys Fyw | | | |
| • Atwrneiaeth Gyfreithiol | | | |
| • Na Cheisier Dadebru | | | |
| • Cynlluniau Uwchgyfeirio Triniaeth | | | |
| 20.5 Nodi a rhesymoli unrhyw anghenion am gymorth ychwanegol i gleifion a'u gofalwyr / teuluoedd, yn gymdeithasol, yn seicolegol ac yn feddygol. | | | |
| | | | |
| **Parth D: Arweinyddiaeth ac ymarfer cydweithredol** | | | |
| **21.0 Galluoedd: Arweinyddiaeth, rheolaeth a threfniadaeth** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 21.1 Bod yn drefnus a rhoi ystyriaeth briodol i bobl a chydweithwyr. At hynny, gall gyflawni elfennau clinigol ac anghlinigol y gwaith mewn modd amserol, gan arddangos rheolaeth amser effeithiol yn unol ag amserlenni cyfyngedig gofal iechyd. | | | |
| 21.2 Ymateb yn gadarnhaol pan fo gwasanaethau dan bwysau, gan weithredu mewn ffordd gyfrifol ac ystyriol i sicrhau ymarfer diogel. | | | |
| 21.5 Dangos parodrwydd i groesawu heriau a pharodrwydd i herio eraill yn adeiladol, gan uwchgyfeirio pryderon sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles pobl, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau a chydweithwyr pan fo angen. Hefyd, gall gynnig eglurder ynghylch rolau o fewn timau i annog cydweithiad cynhyrchiol. | | | |
| 21.6 Dangos ymwybyddiaeth o bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w faes ymarfer o fewn gwasanaethau canser, a hybu datblygiad gwasanaethau i wella deilliannau i gleifion. | | | |
| 21.16 Ymateb i ganmoliaeth a chwynion yn briodol, gan ddilyn safonau proffesiynol a pholisïau lleol perthnasol. | | | |
| | | | |
| **Parth E: Datblygu ymarfer ar sail tystiolaeth a gwella ansawdd** | | | |
| **22.0 Galluoedd: Ymchwil ac ymarfer ar sail tystiolaeth** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 22.1 Dangos dealltwriaeth fanwl o bwysigrwydd ymchwil glinigol ac ymarfer ar sail tystiolaeth, a'i roi ar waith yn ei faes ymarfer ei hun. | | | |
| 22.2 Cyrchu ffynonellau tystiolaeth priodol i ategu ei ymarfer o fewn gwasanaethau canser a gofal lliniarol (e.e. cyfnodolion, adolygiadau llenyddiaeth, erthyglau ymchwil, archwiliadau, ac arferion sy'n seiliedig ar y celfyddydau). | | | |
| 22.3 Deall a defnyddio tystiolaeth ar sail arferion gorau i lywio'i ymarfer ei hun. | | | |
| 22.5 Dangos gwybodaeth ymarferol am y canlynol: | | | |
| • yr ystod o drefnegau ansoddol a meintiol sydd ar gael, a'u pwrpas. | | | |
| • cysyniadau dilysrwydd a dibynadwyedd mewn perthynas â chasglu, coladu a dadansoddi data. | | | |
| • y prosesau a ddefnyddir i drafod a beirniadu papurau ymchwil a sut i ystyried y goblygiadau o ran ymarfer. | | | |
| 22.8 Deall y materion moesegol a chyfreithiol sy'n ymwneud â chasglu data a thrin gwybodaeth, gan gynnwys cyfrinachedd, cydsyniad, diogelu a storio data. | | | |
| 22.11 Cymhwyso egwyddorion ymarfer clinigol da, moesegol mewn perthynas ag ymchwil, archwilio ac arfarnu gwasanaethau (e.e. gweithio o fewn systemau a pholisïau llywodraethu lleol, cydsyniad ar sail gwybodaeth a chyfrinachedd). | | | |
| | | | |
| **Parth F: Datblygu ymarfer ar sail tystiolaeth a gwella ansawdd** | | | |
| **23.0 Galluoedd: Arfarnu gwasanaethau a gwella ansawdd** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 23.5 Nodi meysydd o fewn y gwasanaeth presennol y gellid eu datblygu, gan gynnwys nodi'r bylchau a'r cyfleoedd posibl. | | | |
| 23.6 Casglu data angenrheidiol i gynnal arfarniadau, archwiliadau neu ymchwil er budd gwasanaethau i bobl sy'n byw gyda chanser ac yr effeithir arnynt gan ganser. | | | |
| 23.16 Cyfrannu at ddatblygu a chynnal adolygiadau gan gymheiriaid, adolygiadau gwasanaeth, archwiliadau ac ymchwil o fewn gwasanaethau lleol. | | | |
| | | | |
| **Parth G: Addysgu a datblygu'r hunan ac eraill** | | | |
| **24.0 Galluoedd: Addysg** | | | |
| **Mae'r ymarferydd yn gallu:** | | | |
| 24.1 Asesu'n feirniadol a rhoi sylw i'w anghenion dysgu, gan drafod cynllun datblygiad personol sy'n adlewyrchu ehangder ei ddatblygiad proffesiynol parhaus ar draws y pedwar piler ymarfer | | | |
| 24.3 Cynllunio, cofnodi ac ymroi i ddysg a datblygiad sy'n berthnasol i'w rôl ac sy'n bodloni gofynion proffesiynol, rheoleiddiol a chytundebol. | | | |
| 24.4 Eirioli a chyfrannu at ddiwylliant o ddysgu sefydliadol i ysbrydoli staff y dyfodol a staff presennol. | | | |
| 24.5 Gweithredu fel model rôl, addysgwr, goruchwyliwr, hyfforddwr a mentor, gan geisio meithrin a datblygu hyder eraill a hwyluso'u datblygiad. | | | |
| 24.12 Cynorthwyo staff eraill i weithredu gwasanaethau ar gyfer pobl â chanser. | | | |
| 24.13 Hybu ymwybyddiaeth a gweithredu canllawiau cenedlaethol ar gyfer adsefydlu mewn perthynas â chanser, gofal lliniarol a gofal diwedd oes, er enghraifft canllawiau ymarfer corff a metastasis | | | |
| 24.19 Cydnabod pobl fel ffynonellau dysg yng nghyd-destun eu hanesion, eu profiadau a'u safbwyntiau, ac fel cyfoedion i gyd-ddylunio a chyd-ddarparu cyfleoedd addysgol. Ystyried anghenion dysgu a gwybodaeth unigolion, teuluoedd, gofalwyr a chymunedau ac ymateb iddynt. At hynny, darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol yn ogystal ag addysg a hyfforddiant ffurfiol/strwythuredig i bobl â chanser, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gwneir hyn â'r nod o hybu ac ategu hunanofal a llythrennedd iechyd yn ogystal â grymuso'u cyfranogiad i lunio penderfyniadau ynghylch elfennau o'u gofal, eu | | | |
| | | | |